# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at Reoliadau Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Ffioedd) (Cymru), gan Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

**At Mick Bates:**

Yn ystod y Cyfarfod Llawn ar 20 Mehefin 2006 mewn perthynas â Rheoliadau Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Ffioedd) (Cymru) 2006, gofynasoch nifer o gwestiynau imi ynglŷn â'r ffioedd ac addewais y byddwn yn anfon ateb ysgrifenedig atoch.

Fe ymdriniaf â'r cwestiynau yn y drefn y'u codwyd. I ble'r aiff y ffioedd? Telir y ffioedd i linell gyllideb benodol sydd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

I beth y defnyddir y ffioedd? Defnyddir y ffioedd i wrthbwyso costau cynnal tribiwnlysoedd.

Pa ganran o gyfanswm cost apêl y mae'r ffioedd yn cyfrif? Bydd hyn yn amrywio, gan ddibynnu ar nifer yr apeliadau a gaiff eu hystyried bob dydd a'r gost am lety, gan gynnwys unrhyw gyfleusterau arbennig ac ati. Mae'r gyfradd a delir i aelodau Tribiwnlys yn gyfradd ddyddiol, felly po fwyaf yr apeliadau y byddant yn eu hystyried fesul diwrnod, mwyaf y ganran a fydd yn cael ei hadennill o ffioedd. Fodd bynnag, yn y sefyllfa waethaf, petai'r Tribiwnlys yn clywed un apêl yn unig mewn diwrnod, rydym yn rhagweld y bydd y ffioedd yn cyfrif am lai na 25% o gyfanswm cost yr apêl.